



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn cymryd lle Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau 1983 fel y diwygiwyd i drosi, yn rhannol, Gyfarwyddeb y Cyngor 2003/85/EC ar Fesurau'r Gymuned i reoli Clwy'r Traed a'r Genau. Cafodd y Gorchymyn ei wneud o dan weithdrefn Weithredol ar 31 Ionawr 2006 a daeth i rym ar 1 Chwefror 2006.

Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Erthygl 57(1) yn cyfeirio at "an offence under this Order"; yn wir, nid oes unrhyw dramgwydd "under this Order". Mae tramgwyddau'n digwydd o dan adran 73 y Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, sy'n darparu fod – "A person is guilty of an offence against this Act who, without lawful authority or excuse, proof of which shall lie on him (a) does anything in contravention of this Act, or of an order of the Minister, or of a regulation of a local authority; or (b) fails to give, produce, observe or do any notice, licence, rule or thing which by this Act or such an order or regulation he is required to give, produce, observe or do." Felly dylai Erthygl 57 felly fod wedi cyfeirio at dramgwyddau dan adran 73 sy'n codi o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn. Er bod y bwriad yn amlwg, efallai nad yw hynny'n ddigonol i arbed erlyniad a wneir wrth ddibynnu ar yr erthygl hon [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Rhan1 Atodlen 5 yn cyfeirio at driniaeth cynnyrch sy'n tarddu o anifeiliaid er mwyn sicrhau fod feirws y clefyd yn cael ei ddinistrio. Mae nifer o groesgyfeiriadau at Atodiadau VII a VIII. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriad at Atodiad penodol ar goll o'r croesgyfeiriad ym mharagraff 3 Rhan 1. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Gwallau drafftio neu deipio mân yw'r rhain a fyddai wedi bod yn briodol i'w cywiro trwy Femorandwm Cywiriadau.

Gwnaethpwyd y Gorchymyn hwn yn Saesneg yn unig. Yng ngoleuni hynny, yr oedd yn dilyn patrwm y ddeddfwriaeth a wnaethpwyd yn ystod yr argyfwng yn 2001. Fe ystyriodd y Pwyllgor yn ei Adroddiad Blynyddol 2000-01 "dylai'r Cynulliad sefydlu gweithdrefnau, er mwyn cyflawni ei ymrwymiad a'i rwymedigaethau i ddwyieithrwydd, i'w alluogi i gyhoeddi deddfwriaeth yn Gymraeg a Saesneg hyd yn oed mewn sefyllfaoedd brys." Yn yr achos hwn, ni ellir dweud nad oedd digon o amser wedi bod i baratoi testun dwyieithog gan fod y Gyfarwyddeb y mae'r Gorchymyn hwn yn ei throsi wedi'i chyhoeddi ar 22 Tachwedd 2003 ac yr oedd angen y trosi "by 30 June 2004 at the latest".

Felly mae'r ddeddfwriaeth wedi bod mewn camau amrywiol paratoi am o leiaf ddwy flynedd, ac yn wir 'roedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod yr haf y llynedd. Yr oedd llythyr ymgynghori dyddiedig 10 Mehefin 2005 yn cynnwys drafft o'r Gorchymyn hwn. Er ei fod yn Saesneg yn unig, yr oedd y Gorchymyn yn y fformat colofn oedd yn awgrymu fod testun Cymraeg i gael ei baratoi. Fe aeth saith mis heibio cyn i'r Gorchymyn gael ei wneud.

[Yng ngoleuni'r uchod, efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ysgrifennu at y Gweinidog am eglurhad yn unol â Rheol Sefydlog 11.6 cyn bo'r adroddiad drafft hwn yn cael ei wneud yn derfynol.]

Sylwadau

Mae mân wallau sillafu a fformatio wedi'u nodi sy'n addas i'w cywiro wrth gyhoeddi.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

14 Mawrth 2006